# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyhoeddwyd: Awst 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 394A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Paul Goodlad o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

# Contents


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad ac arolygu 2014-15 5

Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'i amcanion gwella, wedi atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol a pharhau â'i hanes o gadw rheolaeth gref ar arian 7

Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau 8

Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella 11

Adroddiad manwl 13

Perfformiad 14

Llywodraethu 25

Defnydd o adnoddau 30

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 34

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 35

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 37

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 39

Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 41

Atodiad 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 46

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cynlluniau gwella a threfniadau adrodd cynghorau, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol i sicrhau gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff yn Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol.

2 Yn ogystal â hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol (AC) manwl o bob awdurdod ar sail gylchol (bob pedair blynedd ar hyn o bryd). Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau, yn ychwanegol at archwiliadau o gynlluniau ac adroddiadau gwella, bydd tîm archwilio Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn cadw golwg ar ddatblygiadau. Bydd y tîm hefyd yn canolbwyntio, wrth wneud gwaith asesu pellach, ar sawl thema allweddol a ddatblygir yn seiliedig ar drafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a gwblhawyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad gwella blaenorol ym mis Mehefin 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif ganfyddiadau mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau na gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gan gyrff adolygu allanol perthnasol o fewn y Cyngor ac, oni nodir fel arall, maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg cyflawni'r gwaith hwnnw.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei adroddiad a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried y datganiad hwn yn ddatganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad, nac yn rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, hyd y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn info@audit.wales neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Dyletswyddau a gofynion a gynhwysir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith archwilio perfformiad ac arolygu 2014-15

7 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau'r Cyngor ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2014-15, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith asesu gwella o dan dair thema: Perfformiad, Llywodraethu a'r Defnydd o Adnoddau.

8 Nodir isod y prosiectau a gwblhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers AGB diwethaf y Cyngor – gan gynnwys gwaith archwilio lleol ac astudiaethau cenedlaethol – a 'rheoleiddwyr perthnasol' eraill:

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau cyflawni'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Craffu Da? Cwestiwn Da** | Adroddiad cenedlaethol yn seiliedig ar ddull archwilio arloesol, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid, dysgu a gwella 'amser real' ym maes craffu, gan gynnwys swyddogion ac aelodau o bob un o'r 22 o gynghorau unedol. | Gwaith maes yn ystod 2013-14, a chyhoeddi adroddiad cenedlaethol ym mis Mai 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: NEETS: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)** | Adolygiad cenedlaethol o gynghorau yng Nghymru (a oedd yn cynnwys gwaith maes yng Ngyhngor Wrecsam) yn archwilio gwaith cynghorau i leihau nifer y bobl ifanc NEET. Yr oedd hefyd yn cynnwys ystyriaeth o'r graddau y mae cynghorau'n galluogi canlyniadau gwell i bobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. | Drwy gydol 2013, a chyhoeddi adroddiad cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion** | Adolygiad cenedlaethol o gynghorau yng Nghymru, a ystyriai effaith toriadau i adnoddau ar allu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o fewn cynghorau i gyflawni eu hymrwymiadau statudol. | Tachwedd 2013 hyd at Ebrill 2014, a chyhoeddi adroddiad cenedlaethol ym mis Hydref 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru** | Adolygiad cenedlaethol o gynghorau yng Nghymru (a oedd yn cynnwys gwaith maes yn CBS Wrecsam) yn archwilio i ba raddau y maent yn llwyddo i fynd i'r afael ag effaith diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol. | Rhagfyr 2013 hyd at Fawrth 2014 a chyhoeddi adroddiad cenedlaethol ym mis Ionawr 2015. |
| **AGGCC: Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg** | Arolygiad Cenedlaethol o Drefniadau Diogelu a Chynllunio Gofal, ar gyfer plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal sy'n arddangos ymddygiad bregus neu beryglus. | Ionawr hyd at Fai 2014 a chyhoeddi adroddiad lleol ym mis Awst 2014 ac adroddiad cenedlaethol ym mis Ionawr 2015. |

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau cyflawni'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant** | Adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd y Cyngor o ran sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith, ac y cedwir atynt. Cynhaliwyd yr un adolygiad ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. | Mawrth hyd at Fai 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam (BGLl)** | Adolygiad o effeithiolrwydd BGLl Wrecsam wrth sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol. | Mawrth hyd at Fai 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad o'r 'Cynllun Gwella' Blynyddol** | Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella | Mehefin 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Asesiad Cynllunio Ariannol** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a'r modd y mae'n cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. | Gorffennaf hyd at Fedi 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Chwythu'r Chwiban** | Adolygu polisi chwythu'r chwiban o fewn y Cyngor a'r trefniadau i gefnogi'r broses o wneud hynny, a'r chwythwyr chwiban eu hunain. Cynhaliwyd yr un adolygiad ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. | Medi hyd at Hydref 2014. |
| **AGGCC: Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14** | Adroddiad blynyddol sy'n trafod prif feysydd cynnydd a'r prif feysydd ar gyfer gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Cynhaliwyd yr un adolygiad ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. | Hydref 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol o'r 'Asesiad o Berfformiad'** | Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o berfformiad, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. | Hydref 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD)** | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli, goruchwylio a phenderfynu, a'i ffocws ar gwsmeriaid, yng nghyswllt cyllid TTD. Cynhaliwyd yr un adolygiad ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. | Tachwedd hyd at Ragfyr 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllunio Busnes** | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio busnes; gwaith dilynol ar wendidau a amlygwyd yn AGB 2014. | Tachwedd hyd at Ragfyr 2014. |

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau cyflawni'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Tai** | Adolygiad o berfformiad y Cyngor yn gysylltiedig â thai; gwaith dilynol ar Gynnig Gwella blaenorol. | Tachwedd hyd at Ragfyr 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Craffu** | Adolygiad o drefniadau craffu'r Cyngor; gwaith dilynol ar gyfleoedd gwella a sbardunwyd gan brosiect craffu cenedlaethol 2013. | Tachwedd hyd at Ragfyr 2014. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllunio'r Gweithlu** | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio'r gweithlu; gwaith dilynol ar Gynnig Gwella blaenorol. | Tachwedd hyd at Ragfyr 2014. |
| **Comisiynydd y Gymraeg: Adolygiad Blynyddol** | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Cynhaliwyd yr un adolygiad ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. | Ionawr 2015. |

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'i amcanion gwella, wedi atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol a pharhau â'i hanes o gadw rheolaeth gref ar arian

9 Ar sail y gwaith a gwblhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a'r gwaith hwnnw'n unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor cydymffurfio â gofynion y Mesur ac yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2015-16.

10 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Mae perfformiad y Cyngor wedi parhau i wella ar y cyfan, ac fe wnaeth gynnydd da yn erbyn y mwyafrif o'i amcanion â blaenoriaeth yn ystod 2013-14.

b Mae'r Cyngor yn cymryd camau cynhwysfawr i fynd i'r afael â thangyflawni mewn agweddau'n gysylltiedig â rhai canlyniadau â blaenoriaeth – megis agweddau'n gysylltiedig â thai. Fodd bynnag, bu'r cynnydd mewn rhai agweddau pwysig ar dangyflawni – fel codi cyrhaeddiad addysgol pobl ifanc 16 oed – yn arafach nag a ragwelwyd gan y Cyngor.

c Mae'r trefniadau rheoli ariannol yn effeithiol, heb unrhyw ddiffygion amlwg.

ch Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad mewn ffordd deg a chytbwys, yn ceisio cefnogaeth arbenigol allanol pan fydd angen ac yn cymryd camau priodol i ymdrin â gwendidau a nodwyd, neu mewn ymateb i reoleiddwyr allanol.

11 Yn gyffredin â llywodraeth leol ledled Cymru, mae pwysau ariannol cynyddol yn golygu y bydd hi'n her i'r Cyngor gynnal ei berfformiad, a'i wella lle bo angen. Yn fwy nag erioed o'r blaen, bydd llwyddiant y Cyngor yn dibynnu ar ei allu i flaenoriaethu, i reoli'n effeithiol ac i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Er mwyn gwneud hyn yn dda, mae'n rhaid i'r trefniadau sy'n hyrwyddo rheolaeth gadarn ar berfformiad, llywodraethu a'r defnydd o adnoddau fod yn addas i'r diben.

12 O 2013-14, dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru gynnal rhaglen dreigl o asesiadau corfforaethol (ACau), yn seiliedig ar gylch pedair blynedd. Yn ychwanegol at raglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ymagweddau cynghorau at adrodd a chynllunio gwelliannau, bydd pob cyngor yn derbyn Asesiad Corfforaethol (AC) manwl unwaith bob pedair blynedd.

13 Mae AC y Cyngor wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2014, a bydd yn gwerthuso gallu'r Cyngor i 'gyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion'. Er mwy cyflawni hyn, mae fframwaith yr AC yn canolbwyntio ar chwe maes allweddol: perfformiad a chanlyniadau; gweledigaeth a chyfeiriad strategol; llywodraethu; defnydd o adnoddau; partneriaeth a chydweithio; a rheoli gwelliant. Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at adrannau perthnasol o'r fframwaith Asesu Corfforaethol, er mwyn pwysleisio'r cysylltiadau rhwng y gwaith a gwblhawyd gennym yn ddiweddar a materion y byddwn yn mynd ar eu trywydd neu'n eu hadolygu'n fanylach, ym mis Hydref 2015.

## Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau

14 Yn y tabl isod, ceir crynodeb o brif ganfyddiadau adroddiadau a gyflwynwyd ers AGB diwethaf Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg. Nid yw Estyn wedi cwblhau unrhyw waith maes na chyhoeddi unrhyw adroddiadau am y Cyngor yn benodol ers cyhoeddi ein AGB diwethaf.

| | |
|---|---|
| **Archwiliad cyfrifon** | Ar 27 Tachwedd 2014, rhoesom farn ddiamod ar eich datganiadau ariannol. Mae hyn yn golygu ein bod o'r farn fod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn. |
| **Archwiliadau o adroddiadau a chynlluniau gwella** | Cyhoeddwyd tystysgrifau archwilio gennym yn datgan bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur o ran cynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ar berfformiad (gweler Atodiadau 2 a 3). |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | **Swyddfa Archwilio Cymru**<br>• Yn ystod 2013-14, cafwyd perfformiad cymysg yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol, ond gwelliant ar y cyfan, a chynnydd da yn erbyn y mwyafrif o ganlyniadau y rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth iddynt. (Paragraffau 20 i 23).<br>• Mae'r gyfran o bobl ifanc NEET yn Wrecsam yn gostwng yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cymeradwy yn parhau i fod yn uchel o gymharu ag ardaloedd eraill – yn enwedig ymhlith plant dan ofal. (Paragraffau 24 i 28). Yr adroddiad llawn ar gael yn www.archwilio.cymru.<br>• Mae rhai agweddau ar ddull y Cyngor o reoli effaith y diwygiadau lles yn adlewyrchu arfer da, ond nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad cysylltiedig wedi'u datblygu'n ddigonol, a gallent gyfyngu ar y gallu i wneud penderfyniadau effeithiol (Paragraffau 29 i 36). Yr adroddiad llawn ar gael yn www.archwilio.cymru.<br>• Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol yn erbyn ei flaenoriaethau gwella sy'n gysylltiedig â thai yn ystod 2013-14, ac mae'n parhau i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau gwella heriol ar gyfer ei stoc o dai (Paragraffau 37 i 43).<br>• Mae'r system ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn llai cost-effeithiol nag y dylai fod, ond mae sefyllfa ariannol yr ysgolion uwchradd yn parhau i wella (Paragraffau 44 i 49).<br><br>**AGGCC**<br>• Yn ystod 2013-14, gwnaeth y cynnydd gynnydd yn y mwyafrif o feysydd gwella a nodwyd yn flaenorol gan AGGCC, ond parhaodd ei berfformiad yn wannach yn rhai meysydd o fewn y gwasanaethau Plant a'r gwasanaethau Oedolion. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn cssiw.org.uk.<br>• Mewn arolygiad yn 2014-15 o'r trefniadau ar gyfer diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal ac sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg, canfuwyd ystod o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn cssiw.org.uk (Paragraffau 50 i 61).<br><br>**Comisiynydd y Gymraeg**<br>• Bu cynnydd y Cyngor yn anghyson o ran cefnogi a hybu'r Gymraeg (Paragraffau 62 i 65). |

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu** | **Swyddfa Archwilio Cymru**<br>• Yn ystod 2014-15, roedd trefniadau'r Cyngor i gynllunio gwelliannau ac adrodd ar berfformiad yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Paragraffau 66 i 67).<br>• Mae polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth ddefnyddiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer craffu, rheoli perfformiad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn gwbl effeithiol eto (Paragraffau 68 i 70).<br>• Mae ymagwedd y Cyngor at chwythu'r chwiban yn gadarn ar y cyfan, ond ceir ambell gyfle i atgyfnerthu rhai o'r trefniadau cysylltiedig (Paragraffau 71 i 72).<br>• Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan – er bod rhai gwendidau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy (Paragraffau 73 i 74).<br>• Nid yw rhai o'r agweddau ar graffu wedi'u datblygu'n ddigonol; mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen atgyfnerthu ei drefniadau craffu ac yn gweithredu i'r perwyl hwnnw, gyda chefnogaeth arbenigwyr allanol (Paragraffau 75 i 79).<br>• Ar y cyfan, mae fframwaith cynllunio busnes y Cyngor wedi'i integreiddio'n dda, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn deall sut mae eu cyfraniad yn cefnogi amcanion strategol y Cyngor (Paragraffau 80 i 82).<br>• Mae'n rhy fuan i asesu effaith newidiadau cyfansoddiadol diweddar ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor a'i brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau (Paragraffau 83 i 87). |
| **Defnydd o adnoddau** | **Swyddfa Archwilio Cymru**<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli arian, heb unrhyw ddiffygion amlwg (Paragraffau 88 i 97).<br>• Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn cyflenwi gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar lefelau sy'n uwch na'r lefelau gofynnol; er bod cyllidebau wedi codi rhyw fymryn, mae nifer y staff wedi gostwng a safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli gwasanaethau yn gymysg. (Paragraffau 98 i 102).<br>• Mae trefniadau cynllunio'r gweithlu bellach wedi'u hymwreiddio ac yn cael eu gweithredu mewn modd systematig (Paragraffau 103 i 104). |

## Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella

15 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

16 Ni chyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Cyngor yn ystod 2014-15, ond gwnaeth argymhellion a allai fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Darperir rhestr o'r argymhellion hyn yn Atodiad 5. Mae amrywiaeth o faterion is eu blaenoriaeth – a elwir yn gynigion ar gyfer gwella – wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau eraill. Ceir crynodeb isod o'r rhai a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod 2014-15; nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion na chynigion newydd ar gyfer gwella yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ymateb y Cyngor i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn ogystal â'i gynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

| Cynigion ar gyfer gwella a gafwyd mewn adroddiadau lleol ers AGB Mehefin 2014 | |
|---|---|
| **Adolygiad o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam (BGLl)** | |
| C1 | Sicrhau bod trefniadau craffu yn gadarn ac yn cynnig lefel briodol o her i'r BGLl. |
| C2 | Datblygu Cynlluniau Cyflawni sy'n arfau effeithiol er mwyn dwyn partneriaid cyflenwi i gyfrif. |
| C3 | Sefydlu trefniadau rheoli perfformiad sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i hyrwyddo herio cadarn, ysgogi gwelliant a dangos gwerth am arian. |
| C4 | Gwella'r ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ehangu cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol ar Fyrddau Cyflawni. |

| Cynigion ar gyfer gwella a gafwyd mewn adroddiadau lleol ers AGB Mehefin 2014 | |
|---|---|
| **Adolygiad o Drefniadau Chwythu'r Chwiban** | |
| C1 | Atgyfnerthu'r polisi a'r trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban drwy eu diweddaru i adlewyrchu arfer da. |
| C2 | Cynnwys aelodau wrth adolygu'r polisi chwythu'r chwiban, ac wrth weithredu a sicrhau effeithiolrwydd y polisi hwnnw. |
| C3 | Sicrhau bod hyfforddiant chwythu'r chwiban yn cael ei ddarparu i bob aelod o staff. |
| C4 | Datblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r newyddion diweddaraf a'r trefniadau cyffredinol. |
| C5 | Adolygu'r dulliau o wirio ymwybyddiaeth y staff. |
| C6 | Adolygu'r polisi chwythu'r chwiban bob tair blynedd o leiaf, neu'n amlach os ceir unrhyw newid mewn deddfwriaeth. |
| **Adolygiad o Drefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant** | |
| C1 | Sicrhau bod yr holl swyddogion a'r aelodau'n ymwybodol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau atebolrwydd wrth ddiogelu, a'u bod yn deall y trefniadau hynny. |
| C2 | Cynnwys pob agwedd ar waith diogelu'r Cyngor oddi mewn i'r rhaglen archwilio fewnol o hyn allan, er mwyn sicrhau bod yr holl drefniadau lleol yn cael eu hadolygu i atgyfnerthu atebolrwydd a her. |

17 Nododd AGGCC amrywiaeth o feysydd i'w gwella yn yr adroddiadau arolygu a gwerthuso perfformiad a gyhoeddwyd yn ystod 2014-15. Cyfeiriwn at rai o'r meysydd gwella hyn yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae manylion yr holl feysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan AGGCC ar gael yn www.agcc.org.uk.

18 Yn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Blynyddol 2013/14 y Cyngor, nodwyd amrywiaeth o gamau yr oedd angen i'r Cyngor eu cymryd. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb byr o ganfyddiadau a chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg; ceir manylion llawn Ymateb Comisiynydd y Gymraeg yn www.comisiynyddygymraeg.org.

19 Ni chynhaliodd Estyn unrhyw arolygiadau o fewn y Cyngor yn ystod 2014-15, felly ni chyflwynodd unrhyw argymhellion na meysydd newydd i'w gwella. Ceir manylion adroddiad diweddaraf Estyn i'r Cyngor – ymweliad monitro yn dilyn arolygiad, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2013 – ar gael yn www.estyn.gov.uk.

## Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'i amcanion gwella, wedi atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol a pharhau â'i hanes o gadw rheolaeth gref ar arian



# Perfformiad

## Yn ystod 2013-14, cafwyd perfformiad cymysg yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol, ond gwelliant ar y cyfan, a chynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o ganlyniadau y rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth iddynt

20 Yn AGB 2014 Swyddfa Archwilio Cymru, casglwyd bod y Cyngor, yn ystod 2012-13, wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn llawer o'i amcanion gwella, ond nad oedd canlyniadau i ddinasyddion yn gwella ar yr un cyflymder. Ers hynny, cafwyd perfformiad cymysg gan y Cyngor yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol, ond gwelliant ar y cyfan. Yn ystod 2013-14, llwyddodd y Cyngor i wella neu gynnal ei berfformiad ar gyfer hanner y 44 o ddangosyddion cenedlaethol. Llwyddodd y Cyngor hefyd i gynyddu nifer y dangosyddion lle'r oedd yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru gyfan o 21 i 23; cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y dangosyddion lle'r oedd perfformiad y Cyngor yn y chwartel uchaf, o 18 i 21.

21 Ar y cyfan, mae adroddiad blynyddol y Cyngor ar berfformiad – Canolbwyntio ar ein Perfformiad 2013-14 – yn rhoi hunanasesiad gwrthrychol o gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor. O blith y 15 canlyniad â blaenoriaeth a osododd ar gyfer 2013-14, asesodd y Cyngor ddeuparth ohonynt yn rhai Gwyrdd ('Mae cynnydd da yn cael ei wneud ac mae'r canlyniadau'n gwella'), a'r gweddill yn Ambr (Mae cynnydd yn cael ei wneud, ond nid yw hyn yn cael effaith ar ganlyniadau hyd yma'). Er enghraifft, er gwaethaf gwelliant cryf mewn rhai meysydd – megis lleihau'r amser a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl – ceir cynnydd arafach mewn meysydd eraill – fel lefelau gordewdra ymhlith oedolion. Parhaodd y lefelau hyn i gynyddu er gwaethaf ymdrechion gan y Cyngor a'i bartneriaid i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw. At ei gilydd, mae gwerthusiad y Cyngor yn rhoi darlun cytbwys o gynnydd. Bydd cadw hunanymwybyddiaeth gadarn o'r meysydd sydd angen sylw ychwanegol o gymorth i'r Cyngor ar ei daith i wella'n barhaus.

22 Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal arolwg cenedlaethol[2] er mwyn cael barn pobl sy'n byw yng Nghymru ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Nid oedd ychydig dros bumed ran (21 y cant) o breswylwyr Wrecsam a holwyd yn arolwg 2013-14 yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel; mae hyn yn weddol debyg i ganlyniadau'r arolwg mewn cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru, ac yn is (yn well) na'r cyfartaledd cenedlaethol (25 y cant). Yn 2013-14, cafwyd cynnydd i'r gyfran o drigolion Wrecsam a oedd o'r farn fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel – o 51 i 54 y cant. Er bod y ffigur hwn yn galonogol, mae'n dal fymryn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan o 57 y cant. Yn ogystal, dyma'r isaf ond un o blith chwe chyngor Gogledd Cymru. Fodd bynnag, nid oedd bron chwarter (24 y cant) o drigolion Wrecsam a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno nac yn anghytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Roedd y lefel hon o amwysedd yr un peth yn 2012-13. Y mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (18 y cant) ac yn uwch nag yng nghynghorau eraill yng Ngogledd Cymru.

2 Arolwg wyneb yn wyneb o bobl ledled Cymru yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Bob blwyddyn, gofynnir i 14,500 o bobl 16 oed a throsodd am eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy ac ar eu hardal leol. Caiff ymatebwyr eu dewis ar hap er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n gynrychioliadol.

23 Er bod cymharu rhwng gwahanol awdurdodau'n gallu bod yn ddefnyddiol, un o fanteision allweddol data arolygon cenedlaethol yw'r gallu i olrhain newidiadau o fewn awdurdod unigol dros amser. Mae hyn yn bwysig, oherwydd canfuwyd mewn ymchwil gan Lywodraeth Cymru[3] nad oedd gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol ond i gyfrif am ddau y cant o'r amrywiant yn lefelau'r bodlonrwydd â gwasanaethau awdurdod lleol. Dylai canlyniadau arolwg cenedlaethol 2014-15 fod ar gael erbyn mis Hydref 2015. Bydd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer ein Hasesiad Corfforaethol, drwy ddangos sut mae canfyddiad y cyhoedd o wasanaethau Cyngor Wrecsam wedi newid yn ystod blynyddoedd diweddar, os o gwbl. Mae'r fframwaith Asesu Corfforaethol yn archwilio i ba raddau y mae 'gweledigaeth y Cyngor a'i ymdeimlad o bwrpas yn adlewyrchu anghenion lleol a barn pobl leol' – ac a yw'r Cyngor yn 'sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth'.

## Mae'r gyfran o bobl ifanc yn Wrecsam nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn gostwng, ond mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cymeradwy yn parhau i fod yn uwch na'r hyn a geir yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill

24 Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol ar gyfraniad cynghorau yng Nghymru i leihau nifer y bobl ifanc NEET. Mae Cynghorau'n chwarae rhan bwysig er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc NEET. Yn 2000, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei disgwyliadau o ran y gefnogaeth gan gynghorau i bobl ifanc yn ei chanllaw, 'Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru' ac yn ddiweddarach yn 'Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 Oed yng Nghymru' (2002). Yn yr adran hon o'r adroddiad, ceir crynodeb o'r materion sy'n ymwneud yn benodol â Wrecsam y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad cenedlaethol.

25 Cafwyd dros draean o ostyngiad i'r gyfran o ddysgwyr blwyddyn 11 a adawodd yr ysgol yn Wrecsam, y gwyddys eu bod yn NEET, rhwng 2009 a 2013 – yr un gyfradd o welliant â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymdrin â thensiynau rhwng ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau addysg bellach, yn sgil y gystadleuaeth am ddysgwyr. Mae'r Cyngor wedi dod i gytundeb a'i ysgolion na fydd y chweched dosbarth yn darparu cyrsiau lefel un a dau o hyn allan. Mae hyn yn lleihau dyblygu ac yn gwella'r ddarpariaeth gan fod y coleg addysg bellach yn cael ei ystyried yn amgylchedd mwy perthnasol ar gyfer y dysgwyr neilltuol hynny.

26 Yn eu gwaith cynllunio a'u gweithgarwch, mae'r rhan fwyaf o gynghorau hyd yma wedi canolbwyntio ar bobl ifanc 16 i 18 oed, er bod rhai ohonynt, gan gynnwys Cyngor Wrecsam, wedi ehangu'r ystod oedran y maent yn eu cefnogi'n weithredol. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi cyflwyno prosiect sy'n targedu pobl ifanc 16 i 25 oed sy'n agored i niwed. Mae'r prosiect yn cynorthwyo pobl ifanc – gan gynnwys troseddwyr ifanc a phlant dan ofal – i fanteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a pharhau i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

3 Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13: Bodlonrwydd â gwasanaethau awdurdod lleol. Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, Mai 2014 ISBN 978-1-4734-1387-0

27 Mae'r Cyngor wedi llacio'r gofynion mynediad ar gyfer ei gynllun prentisiaeth ei hun, er mwyn annog ceisiadau gan ystod ehangach o bobl ifanc. Fel y rhan fwyaf o gynghorau, mae'r cynllun prentisiaeth yn Wrecsam yn targedu pobl ifanc 16 i 17 oed, gan gynnwys pobl ifanc NEET. Ond yn sgil adolygiad o'r ffactorau sy'n atal mynediad i'r cynllun, nid yw'r Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr feddu ar isafswm o 5 cymhwyster TGAU gradd A* i C mwyach. Mae'r newid hwn yn golygu bod mwy o bobl ifanc yn gymwys i ymgeisio, gan gynnwys y rhai hynny sy'n fwy tebygol o fod yn NEET.

28 Yn ystod 2013-14, gostyngodd y gyfran o'r holl ddisgyblion yn Wrecsam a adawodd addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy[4], ond roedd perfformiad y sir yn dal i fod gyda'r gwaethaf yng Nghymru. Er nad yw hyn ond yn effeithio ar nifer cymharol fach o bobl ifanc, gall diffyg cymwysterau fod yn rhwystr difrifol sy'n atal pobl ifanc rhag ymgeisio am swydd mewn marchnad gystadleuol neu symud ymlaen i addysg uwch.

## Mae rhai agweddau ar ddull y Cyngor o reoli effaith y diwygiadau lles yn adlewyrchu arfer da, ond mae'r trefniadau rheoli perfformiad cysylltiedig heb eu datblygu'n ddigonol a gallent amharu ar y gallu i wneud penderfyniadau effeithiol

29 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gennym a ystyriai'r modd yr oedd cynghorau'n rheoli effaith diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Casgliad yr adroddiad oedd y bydd newidiadau i'r system Budd-daliadau Tai yn rhan o'r diwygiadau lles yn effeithio ar gyfran fwy o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban. Mae rhai tenantiaid tai cymdeithasol hefyd yn profi lefelau cynyddol o dlodi, dyled ac eithrio sy'n cyd-daro â'r newidiadau hyn. Yn rhan o'r astudiaeth genedlaethol, adolygwyd hefyd y rheolaeth ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD), a'r defnydd ohonynt, gan gynghorau yng Nghymru. Casglwyd bod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn gysylltiedig â dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Aethom ar drywydd y materion hyn yn yr holl gynghorau unedol. Yn yr adran hon o'r adroddiad, ceir crynodeb o'r materion sy'n ymwneud yn benodol â Wrecsam, y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad cenedlaethol, ynghyd â'n canfyddiadau mewn perthynas â'r TTD.

30 Canfuom fod cynghorau ar y cyfan wedi bod yn dda am ddarparu hyfforddiant ar y prif newidiadau i fudd-daliadau, er bod ansawdd ac ystod yr ymdriniaeth yn amrywio. Mae'r ymagweddau gorau'n ystyried yr effaith ar y gymuned ehangach, ac yn cynnwys tai, gwasanaethau cymdeithasol, cefnogi pobl, staff cynghori a chynghorwyr yn ogystal â staff cyllid. Mae Cyngor Wrecsam yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar ddiwygiadau lles yn ei gylchlythyr corfforaethol i'r staff, ac yn cynnal gweithdai rheolaidd i gynghorwyr er mwyn cefnogi gwaith llunio polisi a threfniadau atebolrwydd lleol.

4 EDU002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai dan ofal yr awdurdod lleol), mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar y 31ain o'r mis Awst blaenorol, sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy. (Wrecsam 2012-13: 1.1 y cant, 2013-14: 0.5 y cant. Cyfartaledd cenedlaethol: 0.3 y cant). Ffynhonnell: Canolbwyntio ar ein Perfformiad 2013-14; Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Atodiad 1

31 Canfuom hefyd fod ansawdd y data a gasglwyd ac a adolygwyd ar ddangosyddion perfformiad, a mynychder y gwaith casglu ac adrodd gan gynghorau, yn gymysg. Fodd bynnag, nid yw llawer o gynghorau, gan gynnwys Cyngor Wrecsam, wedi pennu mesurau i'w galluogi i farnu ynghylch cynnydd wrth weithredu a gwerthuso effaith. Yn hytrach, maent yn dibynnu'n unig ar ddangosyddion perfformiad sydd wedi'u hen sefydlu, fel y swm o ôl-ddyledion rhent sy'n weddill, y niferoedd ar y rhestr aros a'r amseroedd ail-osod cyfartalog. Er bod dangosyddion o'r fath yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol, nid ydynt yn rhoi dealltwriaeth digon manwl ynghylch gwir effaith diwygiadau lles yn lleol, nac yn cefnogi trefniadau cadarn i graffu ar gynnydd a pherfformiad.

32 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno prosesau sy'n helpu cwsmeriaid sy'n agored i niwed i ymgeisio am TTD. Fodd bynnag, canfuom yn ein hadolygiad dilynol mai Wrecsam oedd yr unig gyngor yng Nghymru nad oedd yn gofyn i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais. Yn lle hynny, byddai'r Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu llythyr yn egluro pam y dylid eu hystyried am TTD, a chynnwys datganiad ariannol cyflawn yn nodi eu hincwm a'u gwariant. Roedd y Cyngor wedyn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd i bennu lefel y cymorth y gallai ei gynnig. Er bod y dull anffurfiol hwn yn cynnig elfen o hyblygrwydd, yr oedd y diffyg canllawiau clir i ymgeiswyr ynghylch ystyr 'datganiad ariannol cyflawn' yn amharu ar gysondeb penderfyniadau. Roedd hyn hefyd yn debygol o achosi oedi a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ymgeiswyr ac yn cynyddu costau gweinyddu'r Cyngor.

33 Ar adeg ein hadolygiad, roedd gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i gynorthwyo ymgeiswyr, ond honnai'n anghywir fod TTD ar gael i gynorthwyo ymgeiswyr i dalu'r Dreth Gyngor. Yn dilyn ein hadborth, diwygiodd y Cyngor yr wybodaeth yr oedd yn ei darparu ynghylch cymhwysedd, cadarnhaodd nad oedd unrhyw daliadau wedi'u gwneud yn gysylltiedig â'r Dreth Gyngor, a chadarnhaodd ei fod yn cymryd camau i wella ansawdd ac ystod ei wybodaeth i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae gwefan y Cyngor yn dal heb gynnwys eglurhad clir i ddarpar ymgeiswyr ynghylch ymagwedd y Cyngor at TTD. Gallai rhai ymgeiswyr cymwys fod yn amharod i ymgeisio oherwydd y diffyg eglurder hwn.

34 Mae'r Cyngor yn monitro lefel y gwariant TTD yn erbyn y swm a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, nifer y cwsmeriaid sy'n derbyn cymorth a'r swm sy'n cael ei wario'n gysylltiedig ag agweddau ar Ddiwygio Lles, fel y Cyfyngiadau ar Ystafelloedd Sbâr. Fodd bynnag, nid yw'n monitro pa mor gyflym y mae'n prosesu ceisiadau na nifer y landlordiaid sy'n derbyn cymorth, nac yn asesu effaith wirioneddol TTD ar bobl sy'n agored i niwed. Mae hyn yn golygu na all y Cyngor fod yn sicr bod taliadau TTD yn cyrraedd y rhai mwyaf anghenus.

35 Yn 2014-15 roedd y galw am gyllid TTD yn llawer mwy na'r cyllid a oedd ar gael. Erbyn diwedd mis Tachwedd 2014, roedd y Cyngor wedi ymrwymo'r rhan fwyaf (98 y cant) o'i ddyraniad o TTD ar gyfer 2014-15 (£226,000), gan helpu 997 o ymgeiswyr. Pan fo'r galw yn uchel, byddai dealltwriaeth gadarn o'r effaith y gallai cymorth TTD ei chael yn cynorthwyo'r Cyngor i dargedu cymorth TTD yn fwy effeithiol.

36 Mae anghysondebau wrth weinyddu TTD bellach yn cael sylw ar draws Cymru yn dilyn gwaith ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Clwb Diwygio Lles. Rydym wedi cytuno â 20 Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Cyngor, ar brotocolau er mwyn gwella cysondeb, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015. Nod y fframwaith polisi ar y cyd yw sicrhau y gwneir penderfyniadau teg a chyson ynghylch yr holl ymgeiswyr; cefnogi penderfyniadau sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau pobl; a hyrwyddo defnydd effeithlon ac effeithiol o'r gyllideb TTD, er mwyn osgoi ail-flaenoriaethu yn ystod y flwyddyn er mwyn cydbwyso'r gyllideb.

## Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol yn erbyn ei flaenoriaethau gwella sy'n gysylltiedig â thai yn ystod 2013-14 ac mae'n parhau i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau gwella heriol ar gyfer ei stoc o dai

37 Yn ein AGB ar gyfer 2014, nodwyd mai ychydig o gynnydd yr oedd y Cyngor wedi'i wneud yn erbyn ei flaenoriaeth i ddarparu cartrefi a fodlonai anghenion a dyheadau pobl yn ystod 2012-13. Yn ystod 2013-14, cafwyd gwelliant sylweddol yn hyn o beth. Er enghraifft, cwblhawyd 96 o gartrefi fforddiadwy newydd – gwelliant sylweddol o gymharu â'r 21 o gartrefi fforddiadwy a gwblhawyd yn 2012-13. Roedd hyn yn golygu bod y Cyngor wedi llwyddo i gyrraedd ei darged ar gyfer tai fforddiadwy am y tro cyntaf ers pedair blynedd. Ers 2013-14, mae cyflymder y gwaith adeiladu wedi parhau yr un peth. Er mai ond 57 o gartrefi newydd fforddiadwy a gwblhawyd yn 2014-15, yn erbyn targed o 96, cafodd 43 o gartrefi newydd eraill eu cwblhau'n fuan yn 2015-16. Yr oedd y cartrefi hynny i fod i gael eu cwblhau yn 2014-15, ond cafwyd oedi oherwydd problemau na fu modd eu rhagweld yn gysylltiedig â safle.

38 Mae uchelgais y Cyngor i greu 390 o dai newydd fforddiadwy erbyn 2016 yn parhau i fod yn her. Fodd bynnag, y mae'n rhagweld y ceir ychydig dros 200 o gartrefi fforddiadwy yn sgil datblygiadau sydd eisoes ar y gweill neu y bwriedir eu dechrau yn ystod 2015-16, ac y daw gweddill y cartrefi yn sgil safleoedd sydd yn y cyfnod cyn cynllunio neu gyn datblygu. Mae'n bwysig cydnabod nad oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar gyflymder gwaith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu ddatblygwyr preifat i ddatblygu cartrefi fforddiadwy.

39 Mae'r Cyngor hefyd yn creu Cynllun Datblygu Lleol newydd, sy'n trafod y cyfnod hyd 2028, a fydd yn pennu ei drefniadau ar gyfer cyflawni amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn creu fframwaith cliriach ar gyfer penderfyniadau cynllunio, a gallai gefnogi ymdrechion y Cyngor i gynyddu'r cyflenwad o dai newydd fforddiadwy yn y tymor hir.

40 Mae effaith adeiladu'r tai newydd fforddiadwy yn y fwrdeistref sirol yn cael ei gwrthbwyso ychydig gan gynnydd yn nifer y tai cymdeithasol sy'n cael eu gwerthu drwy'r Cynllun Hawl i Brynu. Yn ystod 2013-14, cafodd 22 o 'gartrefi cyngor' yn Wrecsam eu gwerthu o dan y ddeddfwriaeth Hawl i Brynu gyfredol – cynnydd o gymharu â'r 15 a werthwyd yn 2012-13, a mwy nag a werthwyd yn unrhyw gyngor arall yng Ngogledd Cymru. Ledled Cymru, cafodd 253 o gartrefi eu gwerthu yn ystod 2013-14 – cynnydd o 49 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ddiddymu'r Hawl i Brynu yng Nghymru ac mae ambell gyngor eisoes wedi gohirio'r Hawl i Brynu yn eu hardaloedd am gyfnod o dair blynedd. Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynigion i ohirio gwerthiannau Hawl i Brynu, oni fydd deddfwriaeth yn gwneud hynny'n ofynnol, ac mae'n mynd ati'n frwd i archwilio cyfleoedd i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi yn y fwrdeistref sirol. Er enghraifft, mae gan y Cyngor gynlluniau datblygedig i adeiladu tai cyngor newydd yn Wrecsam am y tro cyntaf y ganrif hon, ar ôl diwygio'r Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ym mis Ebrill 2015.

41 Cafwyd gwelliant hefyd i record y Cyngor o ran mynd i'r afael â digartrefedd yn ystod 2013-14, er i'r Cyngor adrodd gostyngiad mewn perfformiad yn ddiweddar yn ystod 2014-15[5]. Yn ystod 2013-14, cafwyd gwelliant sylweddol mewn perfformiad ar agweddau fel hyd arosiadau mewn llety dros dro a chyflymder penderfyniadau'n gysylltiedig ag atal digartrefedd, ac roedd y perfformiad hwnnw'n well na chyfartaledd Cymru. Yn ystod 2013-14, derbyniwyd llai o bobl yn Wrecsam yn bobl ag anghenion o ran tai ac yn bobl ddigartref y rhoddir blaenoriaeth i'w hanghenion, ac fe gafwyd gostyngiad yn nifer y teuluoedd digartref a oedd yn byw mewn llety dros dro. Mae'r gwelliant hwn mewn perfformiad wedi helpu'r Cyngor i sicrhau gostyngiad o £250,000 i'r gost o ymdrin â digartrefedd ers 2012-13.

42 Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd cyson yn erbyn y targed i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn diwedd 2020. Er mai ond 722 o gartrefi Cyngor (o gyfanswm o dros 11,300 o gartrefi) yn Wrecsam oedd yn cydymffurfio'n llwyr[6] â SATC erbyn diwedd 2013-14, mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da gyda rhai elfennau unigol o'r rhaglen gwella tai. Er enghraifft, yn dilyn buddsoddiad o £34 miliwn yn ystod 2014-15, roedd gan 71 y cant o'r stoc tai systemau gwresogi a oedd yn cydymffurfio â SATC, ac roedd nifer y cartrefi a chanddynt geginau modern wedi cynyddu'n sylweddol, o 14 i 37 y cant.

43 Er bod y Cyngor yn parhau i fod yn hyderus y bydd yn cyrraedd SATC erbyn 2020, mae'n dal i wynebu cryn her wrth gyflawni gweddill y gwaith sy'n ofynnol. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod angen buddsoddi hyd at £255 miliwn er mwyn cwblhau'r gwaith. Nid yw buddsoddiad o'r maint hwn yn realistig yn y tymor byr, felly mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i denantiaid i roi'r flaenoriaeth i dai lle ceir yr angen mwyaf. Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno â Llywodraeth Cymru ar strategaeth fuddsoddi er mwyn cwblhau gweddill y gwaith erbyn y terfyn amser 2020.

5 HHA013 Canran yr holl deuluoedd a allai gael eu gwneud yn ddigartref, lle llwyddwyd i osgoi hynny am o leiaf chwe mis (2012-13: 13 y cant, 2013-14: 82 y cant, 2014-15: 72 y cant) Ffynhonnell: Cynllun y Cyngor 2015-17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

6 I gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'n rhaid i dai cymdeithasol fodloni amrywiaeth o feini prawf. Er enghraifft, mae'n rhaid i gartrefi fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da, wedi'u gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran ynni ac wedi'u hinswleiddio'n dda. Mae'n rhaid iddynt hefyd gynnwys cegin ac ystafell ymolchi fodern. Rhaid cyrraedd y safon isaf ofynnol ym mhob elfen er mwyn cyfrif bod tŷ yn cydymffurfio â SATC.


## Mae’r system ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn llai cost-effeithiol nag y dylai fod, ond mae sefyllfa ariannol yr ysgolion uwchradd yn parhau i wella

44 Er gwaethaf rhai gwelliannau, adroddwyd gennym y llynedd nad oedd system ysgolion uwchradd y Cyngor mor gost-effeithiol ag y gallai fod. Cafwyd gwelliannau da yng nghanlyniadau TGAU 2013, ond roedd y canlyniadau’n dal i fod yn llawer is na’r cyfartaledd. Roedd nifer fawr o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd yn cyfrannu at y ffaith bod y system yn fwy costus i’w chynnal na’r systemau mewn cynghorau eraill.

45 Cafwyd mymryn o welliant yng nghanlyniadau TGAU 2014, ond mae canlyniadau Wrecsam yn parhau i fod yn y chwartel isaf o blith cynghorau Cymru. Ar y rhan fwyaf o ddangosyddion, gwaethygodd perfformiad TGAU o gymharu â chynghorau eraill. Yr oedd perfformiad pedair o’r naw o ysgolion uwchradd yn is na 75 y cant o ysgolion eraill tebyg yn rhannau eraill o Gymru.

46 Dengys Arddangosyn 1 y ganran o ddisgyblion yn ysgolion Wrecsam a enillodd bump neu fwy o raddau TGAU da, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn 2014, ac ym mhob un o’r pedair blynedd blaenorol.

Arddangosyn 1




*Ffynhonnell: Stats Cymru*

47 Dengys y graff isod fod perfformiad wedi gwella'n gyson ers 2012. Fodd bynnag, nid yw'r bwlch rhwng perfformiad yn Wrecsam a chyfartaledd Cymru ond wedi lleihau rhyw fymryn. Roedd y Cyngor yn 18fed o blith 22 o gynghorau eraill yng Nghymru yn 2013 a 2014 o ran ei berfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

48 O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd rhywfaint o gynnydd yn lefel y lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd, fel yr adroddwyd ym mis Ionawr 2014, i 24.5 y cant. Mae hyn yn cyfrannu at gost addysg uwchradd, sydd yn parhau i fod yn uchel o gymharu â'r rhan fwyaf o gynghorau eraill. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion yn yr ysgolion cynradd yn cynyddu'n gyflymach nag yn y rhan fwyaf o gynghorau eraill. Os bydd y disgyblion hyn yn dewis symud ymlaen i ysgolion uwchradd Wrecsam, bydd nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgolion hynny'n dechrau gostwng ymhen amser.

49 Mae'r gwelliant a adroddwyd gennym y llynedd o ran sefyllfa ariannol yr ysgolion uwchradd wedi parhau. Dygwyd gwargedion bach ymlaen i flwyddyn ariannol 2014-15 yn wyth o'r naw ysgol.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ym mwyafrif y meysydd gwella a nodwyd yn flaenorol gan AGGCC, ond mae ei berfformiad yn dal i fod yn wannach mewn rhai meysydd o fewn y gwasanaethau Plant ac Oedolion

50 Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2013-14 ar gyfer Wrecsam ym mis Hydref 2014. Yn yr adran hon o'r adroddiad, ceir crynodeb byr o brif ganfyddiadau adolygiad blynyddol AGGCC; ceir copi llawn o'r adroddiad ar-lein yn www.aggcc.org.uk.

51 Canfu AGGCC fod y Cyngor yn parhau i weithredu newid a chyflenwi gwasanaethau'n unol â'i gyfeiriad strategol a'i gynllun busnes. Mae'r ffocws ar atal ac ar gynorthwyo pobl i ddefnyddio adnoddau cymunedol, gan sicrhau bod diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae modelau gwasanaeth newydd wedi cael eu cyflwyno mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol eraill, a rhwng y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant.

52 Mae Cyngor Wrecsam yn gwario ychydig yn llai fesul pen o'r boblogaeth ar wasanaethau cymdeithasol ac mae'r nifer o staff a gyflogir ganddo fymryn yn is na chyfartaledd Cymru. Yn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam (adroddiad y Cyfarwyddwr) a'r dystiolaeth ategol, cyfeirir yn glir at yr angen i ail-lunio gwasanaethau er mwyn bodloni cyllidebau cyfyng.

53 Mae'r Cyngor wedi llofnodi datganiad o fwriad ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ynghylch integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn ag anghenion cymhleth. Y mae hefyd wedi cytuno â BIPBC ar gynllun i ddatblygu gwasanaethau gofal canolraddol. Er y bu rhywfaint o gynnydd, mae cwblhau cynlluniau partneriaeth strategol â iechyd (a gweithredu'r cynlluniau hynny) yn parhau i fod yn faes heriol i'r Cyngor, sy'n debyg i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru.

54 Cafwyd cynnydd gyda’r mwyafrif o feysydd a nodwyd i’w gwella’n flaenorol yn Adolygiad Blynyddol 2012-13. Ymhlith y datblygiadau cadarnhaol o fewn y gwasanaethau plant, gwelwyd gwelliant yn y gyfradd ailatgyfeirio, yng nghyfradd y plant a gafodd eu gweld, ac a gafodd eu gweld ar eu pen eu hunain wrth asesu, ac yn y camau a gymerwyd i wella ansawdd asesiadau, a gwelliant hefyd ym morâl a sefydlogrwydd y staff.

55 Cafwyd perfformiad gwael mewn rhai meysydd. Yn 2013-14, arhosodd y Cyngor yn y chwartel isaf o ran prydlondeb asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd o fewn y gwasanaethau plant. Mae’n bosibl bod y ffactor hwn, yn ogystal â’r gostyngiad mewn perfformiad mewn rhai meysydd gwaith sy’n gysylltiedig â phlant sy’n derbyn gofal, wedi adlewyrchu’r pwysau ar adnoddau staff, er bod nifer y staff a’r rheolwyr wedi cynyddu rhywfaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

56 Yn y gwasanaethau oedolion, cafwyd perfformiad gwael yn 2013-14 wrth adolygu cynlluniau gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth. Er bod hyn wedi’i nodi’n flaenoriaeth yng nghynllun ‘Ail-lunio Busnes’ yr Adran ar gyfer 2014-15, nid oedd wedi’i amlygu na’i ddadansoddi’n fanwl yn adroddiad y Cyfarwyddwr nac mewn tystiolaeth ategol, ac roedd ansicrwydd ynghylch y potensial i sicrhau gwelliannau pellach.

57 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC hefyd arolygiad o ymagwedd y Cyngor at ddiogelu a chynllunio gofal i blant sy’n derbyn gofal ac unigolion sy’n gadael gofal ac sy’n ymddwyn mewn ffordd sy’n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad yn rhan o raglen genedlaethol AGGCC o arolygiadau thematig, ac roedd yn cynnwys gwaith maes ym mhob awdurdod lleol ar draws Cymru ar ddechrau 2014. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd cynllunio gofal ledled Cymru, ac asesu a oedd y gofal hwnnw’n cyflawni’r canlynol yn effeithiol:

a cefnogi ac amddiffyn plant dan ofal a rhai sy’n gadael gofal;

b nodi a rheoli bregusrwydd ac ymddygiad peryglus plant dan ofal a rhai sy’n gadael gofal;

c hyrwyddo arfer sy’n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;

ch hyrwyddo canlyniadau gwell i blant dan ofal a rhai sy’n gadael gofal; a

d hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisi a chanllawiau.

58 Ceir hyd i ganfyddiadau o arolygiadau awdurdodau lleol unigol ac o adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC. Ceir crynodeb isod o’r canfyddiadau hynny sy’n gysylltiedig â Wrecsam ac iddynt arwyddocad corfforaethol neilltuol.

59 Mewn perthynas â diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal ac sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg, canfu AGGCC y canlynol:

- a fod tîm rheoli'r Cyngor yn rhoi arweiniad clir ac yn creu ethos cadarnhaol, a bod hynny i'w weld yn ei fuddsoddiad ym mhrosiect aml-asiantaeth Adsefydlu ac Atal Wrecsam (WRAPP);
- b bod y trefniadau rhianta corfforaethol yn gryf;
- c bod trefniadau effeithiol ar waith rhwng partneriaid ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth am y risgiau a achosir gan blant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal, a bod systemau ar waith i hysbysu uwch swyddogion mewn modd priodol;
- ch ei bod hi'n ymddangos bod gan y Cyngor staff a chanddynt sgiliau a phrofiad addas yn gweithio gyda phlant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal, a bod y gweithlu yn sefydlog; a
- d bod trefniadau wedi'u hen sefydlu ar gyfer monitro perfformiad mewn perthynas âdangosyddion perfformiad allweddol.

60 Fodd bynnag, adroddodd AGGCC hefyd:

- a nad oedd strategaethau lleoli a chomisiyny wedi'u datbygu'n ddigonol, er bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn;
- b bod gwytnwch y berthynas â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn rhy ddibynnol ar daliadau gan y Cyngor ar gyfer anghenion therapiwtig plant dan ofal a rhai sy'n gadael ofal;
- c bod bwlch yn y gwasanaethau priodol sydd ar gael i fodloni anghenion emosiynol, iechyd seicolegol neu ddatblygiadol rhai plant a phobl ifanc, gan achosi gor-ddibyniaeth ar y gwasanaethau cymdeithasol; ac
- ch nad yw asesiadau risg na threfniadau i reoli risg yn barhaus wedi'u cydgysylltu, eu cofnodi na'u rhannu'n ddigonol, yn enwedig pan fo mwy nag un asiantaeth yn ymwneud â hynny.

61 Cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd adolygiad cyfochrog o drefniadau diogelu, gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli perthnasol ym mhob cyngor yng Nghymru. Adroddir prif gasgliadau'r adolygiad hwnnw yn adran Llywodraethu yr adroddiad hwn.

## Bu cynnydd y Cyngor yn anghyson o ran cefnogi a hybu'r Gymraeg

62 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar ddiwedd 31 Mawrth 2015, daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i adolygu cynlluniau Iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

63 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl gynghorau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd sy'n amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel bo'r angen.

64 Nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ymrwymiad i brif-ffrydio ac ymwreiddio'r Gymraeg wrth gyflenwi ei wasanaethau. Yn AGB y llynedd, nodwyd nad oedd digon o staff rheng flaen y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg er mwyn iddo allu cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Adroddodd y Comisiynydd fod hyn yn parhau i fod yn wir yn 2013-14. Ni chyrhaeddodd y Cyngor ei darged ar gyfer cynyddu nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg; yn wir, gostwng a wnaeth y gyfran o staff dwyieithog o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn, er mai ond 0.1 y cant oedd maint y gostyngiad hwnnw.

65 Cafwyd gostyngiad hefyd yn y gyfran o swyddi gwag a gafodd eu hysbysebu'n swyddi lle'r oedd y Gymraeg yn sgìl angenrheidiol. Fodd bynnag, cafwyd ychydig o welliant o gymharu â 2011-12 mewn ymarfer siopwr cudd a archwiliai lefelau cydymffurfio ymhlith y staff wrth ateb galwyr ffôn Cymraeg eu hiaith. Er iddo fwriadu gwneud hynny, ni luniodd y Cyngor ddadansoddiad cynhwysfawr o nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl gwasanaeth, gradd a gweithle. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach wedi cyflwyno modiwl hyfforddi ar-lein ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sy'n orfodol i bob aelod o staff.

# Llywodraethu

## Yn ystod 2014-15, roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio gwelliannau ac adrodd ar berfformiad yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

66 Ers yr AGB diwethaf, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi diwygio'i drefniadau ar gyfer cadarnhau a yw cynghorau wedi cyflawni eu dyletswyddau statudol o ran adrodd a chynllunio gwelliannau. Mae'r broses hysbysu wreiddiol lle'r oedd 'Llythyrau' (a oedd yn cael eu galw'n IA1 ac IA2) yn cael eu hanfon, wedi cael ei disodli gan Dystysgrifau Cydymffurfio sy'n cadarnhau a yw cynghorau wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac wedi gweithredu'n unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

67 Ym mis Mehefin 2014, cynhaliom archwiliad o gynllun gwella newydd y Cyngor (Cynllun y Cyngor 2014-17). Cyhoeddwyd tystysgrif gennym yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. Ym mis Hydref 2014, cynhaliom archwiliad o adroddiad blynyddol y Cyngor ar berfformiad (a ganolbwyntiai ar Berfformiad 2013-14). Cyhoeddwyd tystysgrif gennym yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliannau. Mae copïau o'r tystysgrifau hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 ac yn Atodiad 3.

## Mae polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth ddefnyddiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer craffu, rheoli perfformiad, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gwbl effeithiol eto

68 Yn ystod 2014, buom yn asesu effeithiolrwydd y trefniadau y bwriadwyd iddynt gynorthwyo BGLl Wrecsam i gydgysylltu a chyd-gyflawni canlyniadau gwell i bobl leol. Mae'r BGLl, a sefydlwyd yn 2007, yn cynnwys ystod o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector sy'n weithgar yn y fwrdeistref sirol. Mae polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn cefnogi'r BGLl, ac mae swyddogion y Cyngor yn darparu cefnogaeth weinyddol i Weithrediaeth y BGLl a'r Byrddau Cyflawni cysylltiedig.

69 Canfu ein hadolygiad bod y BGLl wedi datblygu ei strwythur llywodraethu ei hun, ond bod angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer craffu, rheoli perfformiad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y BGLl wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei strwythur, ond nid oedd y trefniadau i ddwyn partneriaid i gyfrif, nac i ddangos gwerth am arian, yn gwbl effeithiol. Roedd y BGLl hefyd yn archwilio cyfleoedd i wella'r ffordd yr oedd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, ar ôl cydnabod nad oedd ei drefniadau'n gwbl effeithiol.

70 Bydd yr AC sydd ar ddod yn mynd ar drywydd cynnydd yn erbyn cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o'n hadolygiad o drefniadau'r BGLl yn 2014. Mae'r fframwaith asesu corfforaethol yn asesu'r graddau y mae trefniadau cyngor ar gyfer 'cydweithio a phartneriaethau yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau'.

## Mae ymagwedd y Cyngor at chwythu'r chwiban yn gadarn y cyfan, ond ceir ambell gyfle i atgyfnerthu rhai o'r trefniadau cysylltiedig

71 Yn ystod 2014, buom yn adolygu trefniadau chwythu'r chwiban ym mhob awdurdod unedol yng Nghymru, ac yn rhoi adborth ar ein canfyddiadau. Yn Wrecsam, canfuom fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer chwythu'r chwiban yn gadarn ar y cyfan, ond nodwyd cyfleoedd hefyd i'r Cyngor atgyfnerthu rhai o'r prosesau cysylltiedig a'r hyfforddiant y mae'n ei ddarparu i swyddogion ac aelodau.

72 Roedd ein hadborth yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella a ganolbwyntiai ar gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y staff o drefniadau chwythu'r chwiban, a chynnwys yr aelodau ar raddfa ehangach o hyn allan wrth adolygu'r trefniadau'n fewnol. Byddwn yn adolygu'r camau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb i'n hadborth yn ystod yr AC sydd ar ddod. Mae fframwaith yr AC yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o drefniadau llywodraethu, gan gynnwys y graddau y mae 'ethos a diwylliant yn cefnogi'r safonau uchaf o ran llywodraethu da ac atebolrwydd gwirioneddol' o fewn y Cyngor.

## Mae trefniadau diogelu plant y Cyngor yn ddigonol ar y cyfan – er bod rhai gwendidau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy

73 Yn ystod 2013-14, buom yn adolygu'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ledled Cymru. Yn Wrecsam, canfuom fod y gweithdrefnau llywodraethu a rheoli yn ddigonol ar gyfer gwirio a oedd y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant. Roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso'i gyfrifoldebau i ddiogelu plant hefyd yn ddigonol.

74 Canfuom hefyd fod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar drefniadau diogelu'r Cyngor. Er enghraifft, ni ddangosodd aelodau na'r staff ymwybyddiaeth gadarn o drefniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd lleol. Yn ogystal â hyn, yr oedd rhai gwendidau yn ymagwedd y Cyngor at ganfod sut i wella ei drefniadau diogelu, a gweithredu yn sgil hynny. Yn diweddarach, cymerodd y Cyngor gamau i atgyfnerthu'r trefniadau hyn drwy ei drefniadau archwilio mewnol ar gyfer diogelu. Bwriedir cyhoeddi adroddiad cenedlaethol, yn seiliedig ar yr holl adolygiadau diogelu a gynhaliwyd gennym, erbyn canol 2015.

## Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i adolygu ac atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer craffu, ac yn gweithredu i'r perwyl hwnnw, gyda chefnogaeth arbenigwyr allanol

75 Yn ystod 2014, cydnabu'r Cyngor bod angen atgyfnerthu ei drefniadau craffu, ac fe gomisiynodd y Ganolfan Craffu Cyhoeddus[7] i'w helpu i gyflawni rhaglen gymorth gydweithredol. Er mwyn osgoi ail-wneud gwaith heb fod angen, symleiddiwyd ein cynlluniau gwreiddiol i gynnal adolygiad manwl o drefniadau llywodraethu, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar agweddau a oedd yn ategu'r gwaith yr oedd y Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn ei gyflawni. Gyda chytundeb y Cyngor, arsylwyd amrywiaeth o gyfarfodydd craffu ar ddiwedd 2014, cynhaliwyd cyfweliadau â'r cadeiryddion craffu er mwyn asesu pa mor gadarn oedd y trefniadau presennol, a rhoddwyd adborth ar ein canfyddiadau cychwynnol. Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o'r prif faterion a ddeilliai o'r gwaith hwnnw.

76 Yn y cyfarfodydd craffu ffurfiol a arsylwyd gennym, cymerai uwch swyddogion rôl amlwg drwy gyflwyno adroddiadau ac ymateb i gwestiynau craffu. Er bod Aelodau Gweithredol yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd y pwyllgorau craffu, nid ydynt yn cael eu holi'n rheolaidd ynghylch polisïau, penderfyniadau a pherfformiad gwasanaethau. Yn hytrach, maent yn bresennol fel sylwedyddion i raddau helaeth. Nid oedd y trefniadau craffu y buom yn eu harsylwi yn effeithlon bob amser; roedd rhai cyfarfodydd yn canolbwyntio ar ystod gyfyng o faterion, heb unrhyw archwiliad manwl o berfformiad na'r goblygiadau ar gyfer gwella. Darparwyd rhai adroddiadau craffu 'er gwybodaeth'; byddai'r pwyllgorau'n 'nodi cynnwys' adroddiadau yn aml, yn hytrach na dod i gasgliadau ac/neu lunio argymhellion clir.

77 Ceir enghreifftiau yn Wrecsam lle mae'r broses o graffu cyn penderfynu wedi dylanwadu ar benderfyniadau, ond mae sefyllfaoedd hefyd wedi codi lle nad yw penderfyniadau allweddol gan y Weithrediaeth wedi cael eu hystyried gan y pwyllgor craffu priodol. Roedd y Cadeiryddion craffu y buom yn siarad â hwy o'r farn fod prosesau craffu yn gwella canlyniadau mewn modd effeithiol. Roeddent hefyd yn ystyried bod y trefniadau craffu i aelodau anweithredol gael herio neu ddylanwadu ar bolisi yn effeithiol. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a ganfuom yn Wrecsam o effaith gweithgarwch craffu dros y blynyddoedd diwethaf.

78 Canfuwyd cyfleoedd i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau yn y gwaith rhagarweiniol a gwblhawyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus hefyd. Roedd y gwaith hwn yn seiliedig ar arolygon Aelodau ac uwch swyddogion yn ystod 2014. Er bod rolau craffu a Gweithredol yn glir, nid yw'r trefniadau i alluogi pobl i gyflawni eu rolau, nac i'w dwyn i gyfrif, wedi'u datblygu'n llawn eto. Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi awgrymu y dylid gweithredu cyfres bellach o fesurau er mwyn gwella'r agwedd gwerth ychwanegol ar graffu a chynyddu effeithiolrwydd pwyllgorau craffu wrth ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif. Mae'r Cyngor bellach wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i adroddiad y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, ac i archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu gwerth ychwanegol y swyddogaeth Craffu cyn ac ar ôl gwneud penderfyniadau.

7 Elusen gofrestredig yw'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, a sefydlwyd i hyrwyddo craffu, atebolrwydd a thryloywder cyhoeddus, a chynnwys y cyhoedd, er budd y cyhoedd.

79 Mae’r Cyngor bellach yn gweithio gyda’r Ganolfan Craffu Cyhoeddus ar amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys cyflwyno rhaglenni gwaith mwy cytbwys ac adolygiadau cadarnach o berfformiad a chynnydd yn erbyn amcanion gwella. Mae potensial i’r gweithgareddau hyn ymdrin â’r gwendidau a ganfuom. Byddwn yn rhoi ystyriaeth fanylach eto i effeithiolrwydd trefniadau craffu’r Cyngor yn ystod yr AC sydd ar ddod. Yn yr adran ar lywodraethu yn fframwaith yr AC, asesir y graddau y mae prosesau herio, craffu ac adolygu’r Cyngor yn sicrhau y ceisir ac y rhoddir ystyriaeth weithredol i ystod o safbwyntiau deallus, yn gymorth er mwyn gwneud penderfyniadau a gwella.’

## Ar y cyfan, mae fframwaith cynllunio busnes y Cyngor wedi’i integreiddio’n dda, ac mae’r rhan fwyaf o’r staff yn deall sut mae eu cyfraniad yn cefnogi amcanion strategol y Cyngor

80 Yn yr AGB blaenorol, adroddwyd rhai gwendidau gennym yn nhrefniadau cynllunio busnes y Cyngor. Er bod gwaith y Cyngor i gynllunio gwelliannau yn ystod 2013-14 yn ‘parhau i gynnig cyfeiriad strategol clir i’r Cyngor’ nid oedd ei gynlluniau ar lefel gwasanaeth ‘yn rhoi map llwybr clir ar gyfer llywio’r gwaith o wella gwasanaethau bob amser’. Yn hwyr yn 2014, buom yn edrych eto ar drefniadau cynllunio busnes y Cyngor er mwyn asesu’r newidiadau a oedd wedi cael eu cyflwyno ers ein hadolygiad blaenorol.

81 Mae’r Cyngor wedi osgoi rhagnodi fformat cynlluniau gwasanaeth adrannau unigol yn ormodol, gyhyd ag y bo’r cynlluniau hynny’n addas i’r diben. Oherwydd hyn, nid yw cynlluniau adrannol o reidrwydd yn cael eu cynhyrchu mewn fformat cyson, ond canfuom fod trefniadau cynllunio busnes y Cyngor yn cael eu gweithredu mewn modd cyson a bod mwyafrif y staff yn eu deall yn dda.

82 Canfuom hefyd fod trefniadau cynllunio adrannol yn cefnogi datblygiad cynlluniau busnes sy’n ddynamig ac sydd wedi’u perchnogi gan y staff. Roedd gan y sampl o gynlluniau a adolygwyd gennym strwythur priodol, ac roeddent yn amlwg yn cefnogi amcanion gwella’r Cyngor. Y cynlluniau busnes y buom yn eu hadolygu oedd y cynlluniau a oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd, ac a drafodai 2014-15. Ymagwedd y Cyngor at gynhyrchu cynlluniau adrannol 2015-16 fu cyfnerthu a sefydlu ymhellach y newidiadau a wnaeth yn ystod 2014-15. Yn yr AC sydd ar ddod, cynhelir asesiad cynhwysfawr er mwyn canfod a yw’r Cyngor yn rheoli ei raglen wella mewn modd effeithiol. Yn yr adran hon o fframwaith yr AC, archwilir a yw ‘trefniadau’r Cyngor i gynllunio gwelliannau’n cefnogi proses gadarn ac effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwella’. I ateb hyn, byddwn yn adolygu ystod o gynlluniau busnes 2015-16 – gan gynnwys cynlluniau adrannol nad ydym wedi’u hadolygu’n flaenorol – er mwyn deall y cysylltiadau rhyngddynt a Chynllun y Cyngor, a’u cyfraniad tuag ato.

## Mae'n rhy fuan i asesu effaith newidiadau cyfansoddiadol diweddar ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor a'i brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau

83 Hyd yn ddiweddar, roedd cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu ei fod yn cynnal Bwrdd Gweithredol gwleidyddol gytbwys. Er gwaethaf y ffaith bod y gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol wedi'i ddiddymu yn sgil cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol (2000), cafwyd cefnogaeth eang o du'r aelodau yn Wrecsam ar gyfer yr ymagwedd hon, sy'n unigryw yng Nghymru. Gan hynny, hyd fis Medi 2014, yr oedd gan bob un o'r pum grŵp gwleidyddol o fewn y Cyngor seddau ar y Bwrdd Gweithredol.

84 Ym mis Medi, yn sgil gwahaniaethau gwleidyddol, cafodd grŵp gwleidyddol newydd ei greu, a oedd yn cynnwys dau aelod. Fodd bynnag, oherwydd rheolau'r Cyngor ynghylch cymesuredd, nid oedd gan grŵp o ddau yr hawl i gael sedd ar y Bwrdd Gweithredol. Y grŵp hwn felly oedd yr unig 'grŵp anweithredol', fel y diffiniwyd hynny ym Mesur Llywodraeth Leol 2011.

85 Mae Mesur Llywodraeth Leol 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau ddyrannu cadeiryddiaeth rhai pwyllgorau i grwpiau anweithredol. Cymerodd y grŵp newydd gadeiryddiaeth y Pwyllgor Craffu, fel sy'n ofynnol ym Mesur 2011, ond arhosodd cynghorwyr o grwpiau a oedd yn cael eu cynrychioli ar y Weithrediaeth yn eu swyddi fel cadeiryddion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio. Yn sgil ymholiadau a godwyd gennym, gofynnodd y Cyngor am gyngor cyfreithiol a oedd yn cadarnhau nad oedd dyraniad Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio yn cydymffurfio â'r Mesur.

86 Ymateb y Cyngor fu diwygio ei gyfansoddiad, gan ddileu'r gofyniad am Weithrediaeth gytbwys, fel bo aelodaeth y Weithrediaeth yn fater i'w benderfynu yn ôl disgresiwn llwyr y Cyngor. Yn sgil yn newid hwn, mae tair 'gwrthblaid' wedi cael eu creu, ac ynddynt ddigon o aelodau anweithredol fel y gellir penodi cadeiryddion craffu a phwyllgorau eraill o'u plith. Mae'r newidiadau i'r Cyfansoddiad yn gynaliadwy, ac yn addas ar gyfer ymdrin ag ystod eang o drefniannau o ran cyfansoddiad Grwpiau. Fodd bynnag, yn y tymor byr gallai'r newidiadau newid dynameg y cydweithio rhwng yr aelodau a rhwng yr aelodau a'r swyddogion.

87 Bydd hi'n cymryd amser i'r newidiadau i'r cyfansoddiad ymsefydlu. Byddwn yn archwilio effaith y newidiadau a'r modd y mae swyddogion ac aelodau wedi ymaddasu yn ystod yr AC sydd ar ddod. Rhoddir lle amlwg i Lywodraethu yn fframwaith yr AC. Er mwyn deall a yw 'trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi proses benderfynu gadarn ac effeithiol', byddwn yn asesu ystod o faterion, gan gynnwys:

- a a yw rolau a chyfrifoldebau'n hyrwyddo llywodraethu da ac atebolrwydd cryf;
- b a yw aelodau etholedig a swyddogion yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad priodol;
- c a yw trefniadau'n cynorthwyo aelodau ac uwch swyddogion i gyflawni eu rôl mewn modd effeithiol;
- ch a yw'r broses benderfynu ar draws y Cyngor yn gadarn ac effeithiol; ac
- d a yw prosesau herio, craffu ac adolygu'n sicrhau y ceisir ac y rhoddir ystyriaeth weithredol i ystod o safbwyntiau deallus, yn gymorth er mwyn penderfynu a gwella.

# Defnydd o adnoddau

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli arian heb unrhyw ddiffygion amlwg

88 Yn ystod 2014, cwblhawyd adolygiad o'r sefyllfa ariannol gennym ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru er mwyn asesu effeithiolrwydd eu trefniadau i hyrwyddo cydnerthedd ariannol. Canolbwyntiai'r adolygiadau ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15, ac ar hanes y cynghorau o gynllunio a chyflawni eu cyllidebau o 2011-12 ymlaen. Cynhyrchwyd adroddiadau lleol ar gyfer pob cyngor ac adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015. Yn yr adran hon o'r adroddiad, ceir crynodeb o'n hadolygiad o drefniadau'r Cyngor.

89 Mae gan y Cyngor hanes da o nodi'n gywir a gwneud iawn am ei ddiffyg cyllidebol bob blwyddyn. Rhwng 2011-12 a 2013-14, llwyddodd y Cyngor i nodi'r diffyg yn ei gyllideb flynyddol yn gywir, a datblygodd amrywiaeth o arbedion er mwyn gwneud iawn am y bwlch hwnnw. Ceir canllawiau manwl a threfniadau monitro ar lefel swyddog, aelod a phrif swyddog yn sail ar gyfer trefniadau'r Cyngor i reoli'r gyllideb. Mae'r trefniadau ar gyfer y rhagolygon ariannol wedi'u datblygu'n dda, ac fe gaiff rhagolygon eu hadolygu'n rheolaidd.

90 Roedd cynlluniau a threfniadau'r Cyngor i gyflawni cynlluniau arbed 2014-15 yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd hi'n ymddangos yn debygol y byddai cynlluniau arbed y Cyngor yn cael eu cyflawni, ond roedd y rhagolygon tymor canolig yn parhau i fod yn heriol iawn, fel ag yr oedd i gynghorau ledled Cymru. Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol ac mae'n arfer trefniadau rheoli ariannol a rheolaeth ariannol effeithiol. Mae ganddo hefyd fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol.


91 Er nad oedd unrhyw gynigion ar gyfer gwella yn deillio o'r adolygiad, anogwyd y Cyngor i wella'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig drwy ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol, targedau ar gyfer balansau wrth gefn a chysylltiadau mwy eglur â gwaith cynllunio'r gweithlu.

92 Rydym wedi trefnu adolygiad dilynol o'r gwaith hwn ym mhob cyngor ar gyfer diwedd 2015, gan ganolbwyntio ar drefniadau i bennu cyllideb 2016-17 a'r ymagwedd strategol at y defnydd o gronfeydd ariannol. Gan fod amseriad yr adolygiad dilynol yn cyd-daro ag AC y Cyngor, fe'i cyflwynir ac adroddir yn ei gylch fel rhan annatod o'r AC. Mae fframwaith yr AC yn cynnwys adran gynhwysfawr ar y Defnydd o Adnoddau sy'n asesu a yw'r Cyngor yn 'rheoli ei adnoddau'n effeithiol er mwyn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo i'w berfformiad a'i ganlyniadau'.

93 Ar adeg ein hadolygiad, yr oedd y Cyngor yn rhagweld bod angen iddo sicrhau o leiaf £45 miliwn o arbedion ychwanegol dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn gryn her; mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd cadw ei opsiynau ar agor, i'w helpu i ddatblygu ystod o arbedion effeithlonrwydd. Wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2015-16, canfu'r Cyngor £11.6 miliwn o arbedion, yn seiliedig ar ymgynghoriad eang, a chyflwynodd gynnydd o dri y cant i'r Dreth Gyngor. Ni chynlluniodd unrhyw ddefnydd o'r cronfeydd i ariannu gwariant cylchol.

94 Mae Arddangosyn 2 isod yn cymharu cynlluniau'r Cyngor o ran gwariant refeniw gros (yn glir o incwm) fesul pen o'r boblogaeth dros y pedair blynedd diwethaf â'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau ar draws Cymru.

Arddangosyn 2




*Ffynhonnell: Stats Cymru*

95 Mae'r graff yn dangos bod gwariant fesul pen yn Wrecsam yn llawer is na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu ffactorau megis amddifadedd a natur wledig y sir sy'n dylanwadu ar fformiwla ddosbarthu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw. Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn gostwng, ond bu'r gostyngiadau'n llai yn Wrecsam nag yn y rhan fwyaf o gynghorau. O ganlyniad i hyn, mae'r bwlch rhwng lefelau gwariant yn Wrecsam a chyfartaledd Cymru wedi cau ers 2011-12. Cyfrifwn fod gwariant fesul pen yn Wrecsam wedi cynyddu un y cant mewn termau real ers 2011-12, o gymharu â gostyngiad cyfartalog o dri y cant ledled Cymru.

96 Yn Atodiad 6 rydym wedi cynnwys gwybodaeth am ddosbarthiad adnoddau ariannol y Cyngor yn 2013-14, ac am dueddiadau yn incwm a gwariant refeniw gros y Cyngor ers 2008-09. Cymerwyd y data o Ddatganiadau Cyfrifon y Cyngor.

97 Fel ym mhob cyngor, costau addysg a gofal cymdeithasol yw cyfran fawr o wariant y Cyngor. Daw ychydig dan hanner o'i incwm gros ar gyfer 2013-14 o'r Grant Cynnal Refeniw (35.6 y cant) ac o Ardrethi Annomestig (10.6 y cant). Mae'r rhain yn ffynonellau incwm nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth arnynt. Yr oedd incwm o'r Dreth Gyngor yn ffurfio cyfran is na'r cyfartaledd o'r cyfanswm incwm, tra bo'r ffioedd a'r taliadau'n cynrychioli 41.3 y cant o incwm y Cyngor ar gyfer 2013-14, a oedd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 37 y cant.

## Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn cyflenwi gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar lefelau sy'n uwch na'r lefelau gofynnol; er bod cyllidebau wedi cynyddu rhyw fymryn, mae nifer y staff wedi gostwng ac fe geir safbwyntiau cymysg ymhlith rhanddeiliaid ynglŷn â'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei wasanaethau

98 Yn ystod 2013-14, cwblhawyd y gyntaf mewn cyfres o astudiaethau gennym yn archwilio sut mae cynghorau yng Nghymru'n ymdrin â'r heriau ariannol o'u blaen – o dan y thema 'cyflawni â llai'. Roedd yr astudiaeth – a oedd yn cynnwys pob un o'r 22 o gynghorau – yn adolygu effaith toriadau i adnoddau ar allu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o fewn cynghorau i gyflawni eu hymrwymiadau statudol. Cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gennym ym mis Hydref 2014 a oedd yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion i randdeiliaid, gan gynnwys pob cyngor, eu hystyried a'u gweithredu lle bo'n briodol. Rhoddwyd adborth i'r Cyngor hefyd ar y trefniadau lleol a adolygwyd gennym; yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o'n prif ganfyddiadau o'r adolygiad.

99 Canfu ein hadolygiad fod y Cyngor yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd ar y lefelau gofynnol neu'n uwch, o farnu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau[8]. Fodd bynnag, roedd gan staff y Cyngor a ymatebodd i'n harolwg farn gymysg ynghylch safon gwasanaeth iechyd yr amgylchedd ar hyn o bryd. Er i'r Cyngor gynyddu gwariant ar iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14, cafwyd gostyngiad i'r nifer o staff a oedd yn ymwneud â chyflenwi'r gwasanaeth. Gallai hyn, ochr yn ochr â'r pwysau ehangach ar gyllidebau sy'n effeithio ar bob cyngor, amharu ar allu'r Cyngor i ymateb mewn modd effeithiol i ddyletswyddau statudol newydd ym maes iechyd yr amgylchedd.

100 Roedd Wrecsam ymhlith 17 o gynghorau yng Nghymru a roddodd flaenoriaeth i waith iechyd yr amgylchedd yn eu hamcanion gwella ar gyfer 2013-14 – blaenoriaeth y mae'r Cyngor wedi'i chadw yn ei Gynlluniau Cyngor ar gyfer 2014-17 a 2015-17. Fodd bynnag, canfu ein harolwg nad oedd dinasyddion lleol yn ymwybodol o berfformiad gwasanaeth iechyd yr amgylchedd ar hyn o bryd, na'r cynlluniau ar ei gyfer i'r dyfodol.

101 Yn gynyddol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cyflenwi rhai gwasanaethau, fel addysg, gwastraff a gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd, neu ar draws rhanbarthau. Ceir cydweithredu ar raddfa fach yn Wrecsam mewn perthynas â iechyd yr amgylchedd; mae'r Cyngor yn ariannu swydd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint. Byddwn yn

8 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, Safonau Arfer Gorau, Hydref 2013.

rhoi ystyriaeth fanylach eto i effeithiolrwydd trefniadau craffu'r Cygor yn ystod yr AC sydd ar ddod. Bydd yr Asesiad hwnnw'n archwilio a yw 'trefniadau ar gyfer cydweithio a phartneriaeth yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau'.

102 Mae astudiaethau eraill sy'n archwilio sut mae gwasanaethau cyngor yn 'cyflawni â llai' – ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u hadnoddau – naill ai ar y gweill neu wedi'u cynllunio. Ffocws astudiaeth 2014-15 oedd y gwasanaethau hamdden; adroddir canlyniad yr astudiaeth hon yn ystod haf 2015. Yn ystod 2015-16 rydym wedi trefnu dwy astudiaeth genedlaethol newydd o dan y thema 'cyflawni â llai'. Bydd yr astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar ddulliau strategol o gynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau, ac ar ddefnyddio cyllid y cyngor i ariannu gwasanaethau trydydd sector. Adroddir canlyniadau'r astudiaethau cenedlaethol hyn yn 2016, gan roi cipolwg defnyddiol o'r modd y defnyddir adnoddau mewn modd effeithiol ar draws llywodraeth leol yng Nghymru.

## Mae trefniadau cynllunio'r gweithlu bellach wedi'u hymwreiddio ac yn cael eu gweithredu mewn modd systematig

103 Yn 2010, adroddwyd nad oedd trefniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer cynllunio'r gweithlu wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn AGB 2014, adroddwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran atgyfnerthu'r trefniadau. Fodd bynnag, nid oedd y trefniadau wedi'u hymwreiddio'n llwyr ar y pryd, felly roedd y cynnig i wella'n parhau i fod yn ddilys.

104 Yn ein hadolygiad o gynnydd ar ddiwedd 2014, canfuwyd bod trefniadau cynllunio'r gweithlu'n cael eu gweithredu mewn modd systematig ac wedi'u hymwreiddio'n well. Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynnig ar gyfer gwella i raddau boddhaol. Fodd bynnag, nid oedd ein hadolygiad byr yn archwilio i ba raddau yr oedd trefniadau cynllunio'r gweithlu'n cefnogi amcanion strategol y Cyngor a'i agenda effeithlonrwydd ehangach. Rydym yn bwriadu mynd ar drywydd y gwaith hwn yn ystod yr AC sydd ar ddod, er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y trefniadau diwygiedig. Yn yr adran ar y defnydd o adnoddau yn fframwaith yr AC, asesir a oes gan gyngor 'drefniadau effeithiol ar waith er mwyn rheoli a defnyddio'i weithlu'. Mae fframwaith yr AC hefyd yn archwilio'r graddau y mae strategaethau corfforaethol sy'n trafod meysydd allweddol fel cynllunio'r gweithlu, rheoli asedau, technoleg gwybodaeth a chyllid wedi'u cysoni â'i gilydd.

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

105 Ar 27 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Roedd y llythyr yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan ddatgan eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Ceir hyd i'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-2017 Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun y Cyngor 2014-2017 a gynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Nid oes unrhyw argymhellion yn codi o'r archwiliad o Gynllun y Cyngor 2014-17 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths: Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Huw Lloyd Jones: Rheolwr
Paul Goodlad: Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun; ac
- wrth gyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad y Cyngor er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Nid oes unrhyw argymhellion yn codi o'r archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2013 14,

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Huw Lloyd Jones, Rheolwr
Paul Goodlad, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Mark Pritchard – Arweinydd
Dr. Helen Paterson – Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Annwyl Gynghorydd Pritchard a Dr Paterson

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol – Wrecsam 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014 cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan ddatgan eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y prif faterion a ddeilliai o'm harchwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 25 Medi 2014. Nodais hefyd nifer o faterion ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i atgyfnerthu ei systemau rheolaeth fewnol ymhellach. Rhannwyd y materion hyn â'r Pennaeth Cyllid ar 24 Tachwedd 2014.

## Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau, wrth gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2014

## Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn fy ngwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 neu ar systemau ariannol allweddol

Yn rhan o'm gwaith parhaus i ardystio hawliadau a ffurflenni grant, ni nodwyd unrhyw faterion hyd yma yn gysylltiedig â'r cyfrifon na/neu systemau ariannol allweddol. Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw faterion allweddol i'r Pennaeth Cyllid cyn gynted ag y bo rhaglen eleni o waith ardystio wedi'i chwblhau

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r swm cytunedig a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Ariannol.

Yn gywir

Derwyn Owen
**Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penod**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i’r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy’n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â’r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli’n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu’r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy’n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam


## Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





## Cyfanswm Incwm a Gwariant




## Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13




## Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru